

2022 Rhif (Cy.)

**TRAFFIC FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Cefnffordd yr A40  
(Ffordd Osgoi Ddwyreiniol  
Hwlffordd, Sir Benfro)  
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro  
a Dim Goddiwedd) 2022

*Gwnaed* 27 Mai 2022  
*Yn dod i rym* 6 Mehefin 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiwedd) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2022.

**Dehongli**

**2. Yn y Gorchymyn hwn—**  
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2022 No. (W.)

**ROAD TRAFFIC, WALES**

The A40 Trunk Road  
(Haverfordwest Eastern Bypass,  
Pembrokeshire) (Temporary Speed  
Restrictions & No Overtaking)  
Order 2022

*Made* 27 May 2022  
*Coming into force* 6 June 2022

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Haverfordwest Eastern Bypass, Pembrokeshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2022 and this Order comes into force on 6 June 2022.

**Interpretation**

**2. In this Order—**  
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmylion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw darn o gefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledol Cylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, Hwlffordd, Sir Benfro;

ystyr “luoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Luoeedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiadau a gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fod fel ei

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*luoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A40 London to Fishguard trunk road that extends from its junction with the northern side of Scotchwell Roundabout to its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, Haverfordwest, Pembrokeshire;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 08:00 hours on 6 June 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Restrictions and prohibition

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**5.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadroleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

fod yn goddiwedd y unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

## Cymhwysyo

**6.**—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## Atal dros dro

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

## Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Mai 2022

vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

## Application

**6.**—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

## Suspension

**7.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

## Duration of this Order

**8.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

Dated  
27 May 2022